# GEFAIL YR YNYS

**BRIEF FOR APPLICANTS: GWYNEDD ARTIST IN RESIDENCY OPPORTUNITY**
This residency is a collaborative project between the Arts Council of Wales, Stamp and Addo.

**Bursary: £1,000 for 1 month starting in July 2017**

**Deadline for applications: 20th June 2017**

We are inviting applications from artists and makers with a collaborative/ participative approach to undertake this residency based at the forge at Gefail yr Ynys in Caernarfon.

The residency seeks to investigate the potential of Gefail yr Ynys as a resource and arts space for Caernarfon. Working with the wider community, and in particular with members of CARN (Caernarfon Arts Regeneration Network) a group of artists, organisations and community members interested in the continuing development of the arts in Caernarfon, the residency aims to highlight the wider importance of arts practice in Welsh society. Further information on CARN can be found at http://www.stamp.cymru/en/CARN-en/

*The Artist*
The Gwynedd-based artist/designer/maker will be someone interested in working within the forge setting, but not necessarily an experienced metalworker. We are interested in receiving proposals from artists with an emerging or early-career practice interested in contemporary craft, environment, architecture or design who are seeking experience of working with others to develop ideas. An ethos of collaborative practice and engagement is uppermost.

This opportunity is open to Gwynedd-based artists and makers.

*Background*
This residency is part of Stamp – a three-year project supported by the Arts Council of Wales' Ideas: People: Places strategic programme, which aims to test new models of regeneration and collaboration through the arts (http://www.arts.wales/arts-in-wales/ideas-people-places/stamp?diablo.lang=eng). The project has attracted Heritage Lottery Funding to redevelop the Slate Island site's largely derelict buildings, of which Gefail yr Ynys is one, into a new artisan quarter.

The programme at Gefail yr Ynys seeks to test models of delivery of community metalworking facilities within Caernarfon and environs, while demonstrating both a demand for these facilities and offering a viable business model. An opportunity to expand contemporary arts practice and thinking in the area is inherent within the project.

*The Site*
The artist will be provided with a flexible space within Gefail yr Ynys, which could be used as a studio/ workspace/ meeting space /gallery. Other, temporary sites in Caernarfon may also become available to use during the course of the project.

Gefail yr Ynys was the home of Brunswick ironworks from 1906 for over a century until they moved to larger premises on the edge of town. Facilities today comprise of two forges and a

welding area for metal working, a jewellery making tent, a tent for meetings and presentations ,a range of equipment for basic metal-working workshops including welding equipment, anvils, jewellery benches and small hand tools.

The town of Caernarfon has a long history, settled since prehistoric times. It is famous for Celtic tribes, the Roman fort at Segontium and Caernarfon Castle, one of the largest and most imposing fortifications built by the English in Wales. The castle and town walls are now part of a World Heritage Site and alongside Caernarfon's harbour and marina make it the premier tourist destination on the North Wales coast. It has the largest percentage of Welsh-speaking citizens anywhere in Wales.

*The Project*
This project is the first of three residencies (each with a companion residency offered to an established, national or international artist). We aim to explore the possibilities of contemporary making in such a setting and draw attention to the development of the site as a community resource. The appointed artist will be a mentee of the established national/international artist and will assist them in sharing their practice with the wider arts community through events such as talks, exhibitions and demonstrations in addition to creating their own events and work. Local organization such as Antur Waunfawr, a leading social enterprise providing employment and training opportunities for people with learning disabilities in their own community and Gisda, which provide support and accommodation for homeless young people in the area will be key partners in the residency programme.

The proposal is therefore to engage an artist for a month-long period to work with a more established artist to build on links with external projects locally and regionally and work with Addo, CARN, and the wider community of Caernarfon in order to investigate some of these ideas.

The broader aims of the project are to raise the profile of Gefail yr Ynys, develop relationships between existing groups and project partners, exploring and developing ways in which artists may contribute to the development of the embryonic organisation and its facilities.

*Outcomes*
The material outcomes of the residency are open but may take the form of temporary artworks or proposals to explore and share the architectural history of the site through contemporary visual art. Events such as exhibitions, workshops, talks, seminars, and tours may be key elements within the project.

Applicants must demonstrate:
• Creative originality and professionalism in their work
• The ability and desire to work collaboratively with other artists, the public and other partners as part of their creative practice
• A willingness to immerse themselves in the life and culture of the area
• An ability to work in partnership and an understanding of the issues, concerns and opportunities this presents
• The artist must be aware of and abide by the laws for working with children and vulnerable adults, should they undertake such work as part of the residency a DBS check will be required
• In the event of manufacture/installation of artworks by the artist, the artist must demonstrate current and appropriate indemnity insurance relevant to the artist in person and to any object/s to

be manufactured.

*Payment*
The selected artist will be paid in installments to be agreed on appointment. This fee is inclusive of all travel costs, living expenses, and studio equipment & materials (other than those offered by the forge).

**How to Apply:**
To apply for this residency, please send the following information to commissions@addocreative.com by 5pm 20th June 2017 marking your e-mail 'AiR Early Career':

- Up to 10 digital images in a PDF document or a Powerpoint presentation, or a 10-minute (max) showreel. All work should be numbered and include, title, date, dimension and media;
- An up-to-date CV;
- A brief letter of application that broadly outlines why you are interested in this opportunity and how it is relevant to your practice;
- Two letters of support.

When sending files large files (over 4MB), please provide hyperlinks to online files or a DropBox containing the files. Information submitted in other formats will not be accepted.

Please note that we do not require a firm project proposal at this stage as we anticipate that details of activity to be undertaken as part of the residency will be developed following a period of interaction with the area, community and key stakeholders. However, we are interest in how your current practice would benefit from a residency at Gefail yr Ynys and what drew you to making the application.

**Selection Process:** A panel of key stakeholders involved in the Gefail yr Ynys Project will shortlist candidates for interview from the applications received. Interviews will take place in Caernarfon on 27th June 2017. Candidates must be available for interview on this date. Up to £100 per artist will be available to cover travel expenses incurred by attending an interview. Interviews via Skype may be arranged. At interview, interviewees will be expected to speak in more detail about their work and working processes and the approach that they envisage taking towards the residency.

If you have any queries regarding the recruitment process, please email tracy@addocreative.com

**Further Information:** www.addocreative.com

**Contact Details:** For queries and further information, If you have any further queries about this opportunity, please contact: Tracy Simpson, Addo, 07890203218, commissions@addocreative.com

**BRÎFF I YMGEISWYR: CYFLE ARTIST PRESWYL YNG NGWYNEDD**
Prosiect cydweithredol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Stamp ac Addo yw'r cyfnod preswyl hwn.

**Bwrsari: £1,000 am 1 mis, yn cychwyn fis Gorffennaf 2017**

**Dyddiad cau ceisiadau: 20fed Mehefin 2017**

Rydym yn gwahodd ceisiadau oddi wrth artistiaid a gwneuthurwyr â dull cydweithredol/cyfranogol o fynd ati i ymgymryd â'r cyfnod preswyl hwn yn yr efail yng Ngefail yr Ynys yng Nghaernarfon.

Mae'r cyfnod preswyl yn ceisio ymchwilio i botensial Gefail yr Ynys fel adnodd a lle celf i Gaernarfon. Nod y cyfnod preswyl yw dwyn sylw at bwysigrwydd ehangach arfer celfyddydol yn y gymdeithas yng Nghymru. Bydd gweithio gyda'r gymuned ehangach ac, yn benodol, gydag aelodau CARN (Rhwydwaith Adfywio Celfyddydau Caernarfon), sef grŵp o artistiaid, sefydliadau ac aelodau'r gymuned sy'n ymddiddori yn natblygiad parhaus y celfyddydau yng Nghaernarfon. Gellir cael mwy o wybodaeth am CARN yn http://www.stamp.cymru/cy/CARN/

*Yr Artist*
Rhywun sydd â diddordeb mewn gweithio mewn gefail fydd yr artist/ dylunydd/ gwneuthurwr o Wynedd, ond ni fydd o reidrwydd yn weithiwr metel profiadol. Mae gennym ddiddordeb mewn derbyn cynigion oddi wrth artistiaid ar ddechrau'u gyrfa ac yn cychwyn dod yn amlwg sydd â diddordeb mewn dylunio, pensaernïaeth, amgylchedd neu grefft cyfoes ac yn awyddus i gael profiad o weithio gydag eraill i ddatblygu syniadau. Ethos o arfer cydweithredol ac ymgysylltu sydd bennaf.

Mae'r cyfle yn agored i artistiaid a gwneuthurwyr sy'n byw yng Ngwynedd.

*Cefndir*
Mae'r cyfnod preswyl hwn yn rhan o Stamp, sef prosiect tair blynedd a gefnogir gan raglen strategol Creu Cymunedau Cyfoes Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd â'r nod o roi modelau newydd o syniadau adfywio a chydweithio ar brawf trwy'r celfyddydau (http://www.arts.wales/arts-in-wales/ideas-people-places/stamp?diablo.lang=cym). Mae'r prosiect wedi denu nawdd o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ailddatblygu adeiladau sy'n dadfeilio safle cei llechi yn ardal grefftau newydd; mae Gefail yr Ynys yn un o'r adeiladau hyn.

Mae'r rhaglen yng Ngefail yr Ynys yn ceisio rhoi modelau cyflwyno cyfleusterau gweithio metel cymunedol yng Nghaernarfon a'r cyffiniau ar brawf, wrth ddangos galw am y cyfleusterau hyn a chynnig model fusnes hyfyw. Mae cyfle i ymestyn arfer a meddwl celfyddyd cyfoes yn yr ardal yn rhan annatod o'r prosiect.

*Y Safle*
Bydd yr artist yn gallu defnyddio lle hyblyg yng Ngefail yr Ynys, y gellid ei ddefnyddio fel stiwdio/gweithle/man cyfarfod/galeri. Mae'n bosib y bydd safleoedd dros dro eraill yng Nghaernarfon hefyd ar gael i'w defnyddio yn ystod y prosiect.

Cartref gwaith haearn Brunswick oedd Gefail yr Ynys am dros ganrif o 1906 hyd nes iddyn nhw symud i safle mwy ar ymylon y dref. Heddiw, mae yno ddwy efail a lle i weldio ar gyfer gweithio

metel, pabell gwneud gemwaith, pabell ar gyfer cyfarfodydd a chyflwyniadau, ystod o gyfarpar ar gyfer gweithdai gweithio metel syml, gan gynnwys cyfarpar weldio, eingionau, meinciau gemwaith ac offer llaw.

Mae hanes hir i dref Caernarfon, sy'n annedd ers y cyfnod cynhanesyddol. Mae'n enwog am lwythi Celtaidd, y gaer Rufeinig yn Segontium a Chastell Caernarfon, un o'r amddiffynfeydd mwyaf ac ymhlith y mwyaf mawreddog a adeiladodd y Saeson yng Nghymru. Erbyn heddiw, mae'r castell a muriau'r dref yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd a chyda harbwr Caernarfon a'r marina, dyma brif atyniad twristiaeth arfordir Gogledd Cymru. Yma mae'r ganran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

*Y Prosiect*
Y cyntaf o dri cyfnod preswyl yw'r prosiect hwn (pob un â chyfnod preswyl ar y cyd a gynigir i artist sydd eisoes wedi hen sefydlu ei (g)yrfa, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol). Bwriadwn ymchwilio i bosibiliadau gwneud cyfoes mewn lleoliad o'r fath a dwyn sylw at ddatblygiad y safle fel adnodd cymunedol. Bydd yr artist a benodir yn cael ei f/mentora gan yr artist sydd eisoes wedi hen sefydlu ei (g)yrfa, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol a bydd yn eu cynorthwyo i rannu eu harfer gyda'r gymuned gelfyddydol ehangach trwy ddigwyddiadau fel sgyrsiau, arddangosfeydd ac arddangosiadau a hefyd yn creu eu digwyddiadau a'u gwaith eu hunain. Bydd sefydliadau lleol fel Antur Waunfawr, sef menter gymdeithasol flaengar sy'n rhoi cyfleoedd gwaith ac hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu yn eu cymunedau eu hunain a Gisda, sy'n darparu cefnogaeth a llety i bobl ifanc digartref yn yr ardal yn bartneriaid allweddol yn y rhaglen breswyl.

Y cynnig, felly, yw cyflogi artist am gyfnod o fis i weithio gydag artist sydd wedi hen ennill ei blwyf i gryfhau cysylltiadau â phrosiectau allanol yn lleol ac yn rhanbarthol ac i weithio gydag Addo, CARN a'r gymuned ehangach yng Nghaernarfon er mwyn ymchwilio i rai o'r syniadau hyn.

Nodau ehangach y prosiect yw codi proffil Gefail yr Ynys, datblygu perthnasoedd rhwng grwpiau sydd eisoes yn bodoli a phartneriaid prosiect, archwilio ffyrdd y gallai artistiaid gyfrannu at ddatblygu'r sefydliad ifanc a'i gyfleusterau a datblygu ffyrdd o wneud hyn.

*Deilliannau*
Mae deilliannau o bwys y cyfnod preswyl yn agored, ond gallen nhw fod ar ffurf gweithiau celf dros dro neu gynigion i archwilio hanes pensaernïol y safle a'i rannu trwy gelf gweledol cyfoes. Gall digwyddiadau fel arddangosfeydd, gweithdai, sgyrsiau, seminarau a theithiau fod yn elfennau allweddol yn y prosiect.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos:
• Gwreiddioldeb creadigol a phroffesiynoldeb yn eu gwaith
• Y gallu a'r dymuniad i weithio'n gydweithredol gydag artistiaid eraill, y cyhoedd a phartneriaid eraill fel rhan o'u harfer creadigol
• Parodrwydd i drochi eu hunain ym mywyd a diwylliant yr ardal
Y gallu i weithio mewn partneriaeth a dealltwriaeth o'r materion, y pryderon a'r cyfleoedd sy'n deillio o hyn
• Rhaid i'r artist fod yn ymwybodol o'r cyfreithiau ynghlwm â gweithio gyda phlant a chydag oedolion agored i niwed a chydymffurfio â nhw, pe baen nhw'n cynnal gwaith o'r fath fel rhan o'r cyfnod preswyl a bydd gwiriad DBS yn ofynnol
• Pe bai'r artist yn creu/gosod gweithiau celf, rhaid i'r artist roi tystiolaeth o yswiriant indemniad cyfredol a phriodol yn berthnasol i'r artist yn bersonol ac i unrhyw wrthrych/au i'w creu.

*Talu*
Bydd yr artist a ddewisir yn derbyn rhandaliadau fel tâl, y manylion i'w cytuno ar adeg y penodiad. Mae'r ffi hwn yn cynnwys yr holl gostau teithio, costau byw a chyfarpar a deunyddiau stiwdio (ar wahân i'r rheiny y bydd yr efail yn eu cynnig).

**Sut i Wneud Cais:**
I wneud cais am y cyfnod preswyl hwn, anfonwch yr wybodaeth a ganlyn at commissions@addocreative.com erbyn 5yh 20fed Mehefin 2017, gan nodi 'AiR Early Career' ar eich e-bost:

- Hyd at 10 delwedd digidol mewn dogfen PDF neu gyflwyniad Powerpoint, neu Showreel hyd ar 10 munud o hyd. Dylid rhifo'r holl waith gan gynnwys pennawd, dyddiad, mesuriadau a chyfrwng;
- CV cyfredol;
- Llythyr cais byr yn amlinellu pam eich bod â diddordeb yn y cyfle hwn, a sut mae'n berthnasol i'ch arfer chi;
- Dau lythyr yn cefnogi.

Wrth anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), darparwch hyperddolenni at ffeiliau ar-lein neu Drop Box yn cynnwys y ffeiliau. Ni dderbynnir gwybodaeth a gyflwynir mewn fformatau eraill.

Sylwch nad oes angen cynnig prosiect cadarn arnom yn y cam hwn gan ein bod yn rhagweld y bydd manylion gweithgareddau i'w cynnal fel rhan o'r cyfnod preswyl yn cael eu datblygu ar ôl cyfnod o ryngweithio gyda'r ardal, y gymuned a rhanddeiliaid allweddol. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb yn sut byddai eich arfer presennol yn cael budd o gyfnod preswyl yn Gefail yr Ynys, a'r hyn a ddenodd chi at wneud cais.

**Y Broses Ddethol:** Bydd panel o randdeiliaid allweddol cysylltiedig â Phrosiect Gefail yr Ynys yn creu rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld o'r ceisiadau a dderbynnir. Cynhelir cyfweliadau yng Nghaernarfon ar 27ain Mehefin 2017. Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i'w cyfweld ar y dyddiad hwn. Bydd hyd at £100 yr artist ar gael i dalu costau teithio i gyfweliad. Efallai y gellir trefnu cyfweliadau trwy Skype. Yn ystod y cyfweliad, disgwylir i ymgeiswyr siarad yn fwy manwl am eu gwaith a'u prosesau gweithio a'r dull o fynd ati y maen nhw'n rhagweld ar gyfer y cyfnod preswyl.

Os oes gynnoch chi unrhyw ymholiadau o ran y broses recriwtio, anfonwch e-bost at tracy@addocreative.com

**Gwybodaeth Bellach:** www.addocreative.com

**Manylion Cyswllt:** Ymholiadau a gwybodaeth bellach: os oes gynnoch chi ymholiadau pellach am y cyfle hwn, cysylltwch â: Tracy Simpson, Addo, 07890203218, commissions@addocreative.com

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon Caernarfon Harbour Trust
stamp
Cyngor Gwynedd Council
addo